COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN YSTAFELL BWYLLGOR 2 A 3 - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2024 AM 14:30

Yn bresennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | J P D Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelley Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheolaethol |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Anya Richards | Rheolwr Grŵp Dros Dro Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus |

Datganiadau o Fuddiant

Cyhoeddodd y Cyng Neelo Farr ddatganiad o fuddiant yn eitem 13, Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg.

**301. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 20/02/2024 fel rhai cywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**302. Canlyniad yr Ymgynghoriad Drafft ar y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr ymgynghoriad drafft ar y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad a chymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer ei chyhoeddi.<br><br>Eglurodd fod y nodau a nodir yn adran 3 yr adroddiad wedi eu datblygu i sicrhau bod ein trigolion a rhanddeiliaid allweddol eraill yn rhan o'r penderfyniadau strategol allweddol. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad llawn yn Atodiad A yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch a Lles Cymunedol a oes gennym unrhyw ystadegau ynghylch faint o'r negeseuon e-bost cyfathrebu a agorwyd mewn perthynas â'r system e-bostio GovEDelivery.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch a Lles Cymunedol sut y rhannwyd gwybodaeth ynghylch y sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb ymysg y cyhoedd, gan fod yr adroddiad yn nodi eu bod wedi eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, ond nad yw pawb yn defnyddio'r rhain.<br><br>Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldebau fod y wybodaeth wedi ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n eu defnyddio, ond i'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio, roedd y wybodaeth wedi ei bwydo drwy Gynghorau Tref a Chymuned er mwyn iddyn nhw ei hysbysebu mewn cyfarfodydd lleol, ar wefannau a thrwy hysbysebu ffisegol. Yn anffodus roedd presenoldeb yn y sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn isel, fodd bynnag roedd y sgyrsiau a gafwyd yn ystyrlon iawn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Cabinet ganlyniad yr ymgynghoriad a chymeradwywyd y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfrannu sydd wedi ei hatodi fel Atodiad B yr adroddiad ar gyfer ei chyhoeddi |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 303. Datganiad Sefyllfa Tai a Digartrefedd

<table>
<tr><td>Penderfyniad</td><td>Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn:<br><br>• Diweddaru'r Cabinet ar y darnau allweddol o waith sy'n mynd rhagddynt i fynd i'r afael â'r straen ar wasanaethau tai a digartrefedd;<br><br>• Ceisiwyd cymeradwyaeth y cyngor i gaffael eiddo o'r math amlfeddiannaeth (HMO) sydd o fewn amcangyfrifon cyfalaf y Cyngor sydd wedi'u cymeradwyo er mwyn darparu llety dros dro, yn amodol ar bob diwydrwydd dyladwy a chyngor cyfreithiol;<br><br>• Ceisiwyd cymeradwyaeth y cyngor i atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor (CPRS) mewn perthynas â'r gofynion tendro ar gyfer contract a dirprwyo awdurdod i Bennaeth Partneriaethau a Thai i gychwyn Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr llety presennol am gyfnod o 'hyd at' 12 mis er mwyn parhau â'r ddarpariaeth llety dros dro ychwanegol fel sy'n angenrheidiol i fodloni dyletswyddau statudol y Cyngor.<br><br>Darparodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid gefndir yr adroddiad fel y nodir yn adran 2 yr adroddiad. Dywedodd fod costau llety dros dro yn syfrdanol, ac fe amlygir y rhain yn y tabl yn adran 2.7 yr adroddiad, sy'n dangos y cynydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dywedodd fod y Cabinet wedi cymeradwyo Cynllun Cefnogi Tai a Chynllun Gweithredu 2022-2026 ar 19 Rhagfyr 2023. Amlinellodd Adran 3 ddarnau allweddol o waith sy'n mynd rhagddynt i fodloni'r heriau mae Pen-y-bont ar Ogwr yn eu hwynebu.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio ein bod yn cydnabod bod digartrefedd yn argyfwng cenedlaethol a'i fod yn bwysig nodi gofynion Awdurdodau Lleol i ddarparu llety rhatach a gwell, ac nad yw Pen-y-bont ar Ogwr yn ddim gwahanol.<br><br>Ategodd y Dirprwy Arweinydd y sylwadau hyn a nodi ei bod yn bwysig cymeradwyo'r adroddiad er mwyn sicrhau bod y perygl o bobl yn dod yn ddigartref yn cael ei liniaru. Gofynnodd beth ddigwyddodd yn 2018-19 gan fod y costau yn sylweddol is y flwyddyn honno o'u cymharu â blynyddoedd eraill. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid fod nifer y bobl oedd yn gofyn am gymorth y flwyddyn honno wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol, roedd gwasanaethau eraill yn cael eu cynnig yn aml hefyd ac felly nid oedd angen llety dros dro ar nifer o bobl. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd wedyn a hynny'n bennaf oherwydd pandemig COVID-19.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Cabinet:<br><br>• nodwyd cynnwys yr adroddiad;<br><br>• cymeradwywyd caffael eiddo o’r math amlfeddiannaeth (HMO) oedd o fewn amcangyfrifon cyfalaf y Cyngor er mwyn darparu llety dros dro, yn amodol ar bob diwydrwydd dyladwy a chyngor cyfreithiol;<br><br>• cytunwyd i atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor (CPRS) mewn perthynas â'r gofynion tendro ar gyfer contract a dirprwyo awdurdod i Bennaeth Partneriaethau a Thai i gychwyn Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr llety presennol am gyfnod o 'hyd at' 12 mis er mwyn parhau â'r ddarpariaeth llety dros dro ychwanegol fel sy'n angenrheidiol i fodloni dyletswyddau statudol y Cyngor;<br><br>• dirprwywyd awdurdod i’r Pennaeth Partneriaethau a Thai gymeradwyo telerau terfynol Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar ran y Cyngor a threfnu bod y cytundebau’n cael eu gweithredu ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â’r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol;<br><br>• nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet i'w diweddaru ynghylch y sefyllfa llety dros dro.<br><br>• gofynnwyd am gyflwyno adroddiad pellach i’r Cabinet ar y Grant Tai Cymdeithasol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**304. Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2024**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad, gan geisio cymeradwyaeth y Cyngor o’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol (LHMA) 2024 i’w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Eglurodd fod y LHMA wedi dadansoddi rhagolygon aelwydydd ochr yn ochr â data economaidd-gymdeithasol, demograffeg a marchnad eiddo allweddol er mwyn cyfrifo amcangyfrif anghenion tai ar gyfer |

| | |
|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Atodwyd y dadansoddiad yn Atodiad 1.<br><br>Darparodd y Prif Swyddog Polisi Cynllunio Strategol gefndir yr Asesiad a'r data a gasglwyd. Eglurodd y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn modd diriaethol i lywio'r prosbectws Grant Tai Cymdeithasol a hefyd yr amrywiaeth o dai ar geisiadau cynllunio. Pwysleisiodd mai canllaw strategol oedd hwn i hybu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy, ond bydd angen i bob cynnig ystyried y cyd-destun lleol.<br><br>Roedd yr Arweinydd yn falch o weld nad oedd angen i ni ddefnyddio ymgynghorwyr allanol a'n bod wedi dibynnu ar ein harbenigedd mewnol sydd wedi golygu bod y Cyngor yn arbed arian hefyd.<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio yn croesawu'r adroddiad a diolchodd i'r Swyddogion am y gwaith caled a wnaed. Mae hwn yn ddarn pwysig o waith sy'n llywio'r penderfyniadau ar ddyfodol y farchnad dai a sicrhau ein bod yn gallu darparu tai lle mae eu hangen. Gofynnodd i'r adroddiad hwn fynd at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod ein holl bartneriaid yn cael mewnwelediad cynnar lle y bydd ardaloedd a chymunedau mwy o dai fel bod modd iddynt gynllunio ymlaen llaw'r hyn sydd angen iddynt ei ddarparu.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Cabinet:<br>• cymeradwywyd yr LHMA 2024 (Atodiad 1 yr adroddiad) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br>• gofynnwyd am ddiweddariad ar gynnydd y cyflwyniad, i'w gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**305. Cyfraddau Annomestig Taliadau Disgresiwn: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad, gan geisio cymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2024-25 Llywodraeth Cymru.<br><br>Eglurodd bod cyfanswm rhyddhad o £110,000 ar gael ar draws bob eiddo a feddiannir gan yr un busnes. Amcangyfrifir y bydd, oherwydd y cyfyngiad hwn, oddeutu 888 o drethdalwyr cymwys ledled y fwrdeistref a all elwa o dalu dim ond 40% o'u bil treth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 dan y Cynllun hwn. Pe bai'r Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun, byddai ffurflenni cais ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i bob trethdalwr cymwys wneud cais. |

| | |
|---|---|
| | Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith yr adroddiad a nododd ei fod yn gynllun pwysig i fusnesau Pen-y-bont ar Ogwr. Pwysleisiodd, fodd bynnag, er mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy’n casglu’r ardrethi, Llywodraeth Cymru sy’n gosod yr ardrethi.<br><br>Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y gall fod sawl busnes ym Mhen-y-bont ar Ogwr nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, na sut i wneud cais. Gofynnodd sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo hyn.<br><br>Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid fod y tîm cyfathrebu eisoes wedi eu hysbysu a’i fod yn barod i ddarparu’r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol pe bai’n cael ei gymeradwyo. Byddai dolen i’r ffurflen gais ar gael o 1 Ebrill 2024, er mwyn i fusnesau ddechrau’r broses yn gynnar.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a oedd yn bosibl i ni ysgrifennu at fusnesau i’w hysbysu ei fod ar gael.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid, unwaith y bydd y broses ymgeisio wedi mynd yn fyw, bydd disgwyl i nifer o fusnesau wneud cais am y cynllun. Pe na bai unrhyw ohebiaeth wedi ei dderbyn gan y busnesau disgwyliedig ar ôl cyfnod byr, byddwn yn gwneud gwaith dilynol bryd hynny.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Cabinet y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2024-25 fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**306. Defnydd Arfaethedig o’r Protocol Trosglwyddo Trafodiad Tir gyda Phrifddinas Ranbarth Caerdydd ar gyfer Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad yn amlinellu’r defnydd arfaethedig o Gytundeb Opsiynau gyda’r Cynllun Prifddinas Ranbarth Caerdydd (CCR), dan y Protocol Trosglwyddo Trafodiad Tir. Pe cytunir ar hyn, bydd yn galluogi CCR i gael opsiwn i brynu tir dros ben sy’n perthyn i’r |

| | |
|---|---|
| | awdurdod lleol ym Mrynmelyn a Bryncethin, yn unol â'r amodau a phrisiad tir llyfr coch.<br><br>Nododd fod y cabinet wedi gwneud y penderfyniad anodd ym mis Medi 2023 i dynnu'n ôl o'r Prosiect Hydrogen HyBont Green gyda CCR, Llywodraeth Cymru a Marubeni Europower Limited (MEL). Digwyddodd hyn oherwydd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) heriol y Cyngor a'i anallu i fodloni'r ymrwymiadau ariannol sylweddol oedd eu hangen i gwblhau diwydrwydd dyladwy, yn cynnwys yn ariannol, technegol a chyfreithiol a hefyd yr anallu i fodloni amserlen y prosiect.<br><br>Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau, pe cytunir ar hyn, bydd yn galluogi CCR i gael yr opsiwn i brynu tir dros ben sy'n perthyn i'r awdurdod, yn unol â'r amodau a phrisiad tir llyfr coch cytunedig. Darparodd fanylion am y tir fel y gwelir yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Croesawodd Aelod y Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd yr adroddiad ond pwysleisiwyd y pwynt fod hyn yn ymwneud â'r tir ei hun, a'i fod ar wahân i'r project HyBont a drafodwyd yn gynharach. Nododd, wrth mai cynnig i drosglwyddo perchnogaeth tir oedd hwn, roedd yn credu ei bod yn bwysig ei fod yn parhau i fod mewn perchnogaeth gyhoeddus ac er budd y cyhoedd. Pwysleisiodd bwynt 4 o'r argymhelliad, pe na bai'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y project, y byddai'n cael ei roi'n ôl i'r Cyngor am y gwerth cytunedig y gwerthwyd ef.<br><br>Gofynnodd a oedd yna amserlenni ynghylch pryd y byddai'r tir hwn yn cael ei roi'n ôl i ni pe na bai prosiect yn mynd rhagddo.<br><br>Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau mai'r cynnig ar y cam hwn yw bod y CJC yn cyflwyno adroddiad eu hachos busnes llawn yn y cyfarfod ym mis Mehefin a byddai hyn yn rhoi'r wybodaeth am y cyllid cyfalaf sydd ar waith ar gyfer y cytundeb opsiwn tir, felly bydd hyn yn ein galluogi ni i lunio hyn yn unol â'r prisiad tir llyfr coch cytunedig. Gellir llunio'r opsiwn, ond bydd yn cael ei bennu, fodd bynnag, yn seiliedig ar gais cynllunio llwyddiannus sy'n broses statudol ar wahân.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> fod y Cabinet yn:<br>1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r gofynion statudol ar gyfer caniatâd cynllunio a gwahanol drwyddedau, sydd y tu allan i'r Protocol Trosglwyddo Trafodiad Tir.<br>2. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforedig Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol a Phrif Swyddog Cyllid, Tai a Newid, i ddrafftio a chychwyn Cytundeb Opsiwn gyda CCR/CJC yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn yr adroddiad hwn, a chytuno ar brisiad y tir a'r amodau. |

| | |
|---|---|
| | 3. Cytuno bod unrhyw dderbyniad cyfalaf a dderbynnir gan y Cyngor, yn derbyn diogelwch wedi'i glustnodi hyd nes y daw'n glir bod y prosiect yn mynd rhagddo, er mwyn sicrhau bod arian ar gael pe bai'r tir yn cael ei roi'n ôl ym mherchnogaeth y Cyngor.<br>4. Cytuno bod adroddiad dilynol yn dod yn ôl i'r Cabinet pe na bai'r prosiect neu Gytundeb Opsiwn yn mynd rhagddo, er mwyn i'r tir gael ei roi'n ôl i'r Cyngor am y gwerth cytunedig y gwerthwyd ef ac y gellir cytuno ar benderfyniad ynghylch dyfodol y ddwy lain o dir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**307. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad oedd yn dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn chweched fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS) ar gyfer y cyfnodau 2021-22 a 2022-23 i'r Cabinet.<br><br>Eglurodd mai Atodiad 1 oedd adroddiad cryno 2021-22 a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru er bod llyfrgelloedd ledled Cymru'n ail afael yn eu defnydd yn dilyn y pandemig yn ystod y cyfnod hwn. Ni dderbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yr adroddiad hwn tan 2023. Yn ystod y cyfnod, gwelodd y gwasanaeth gynnydd o 23% mewn benthycwyr gweithredol gyda thwf ymysg benthyciadau plant ac oedolion.<br><br>Atodiad 2 yw adroddiad 2022-23 Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r datganiad hunan asesu yn ymwneud â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch a Lles Cymunedol yr adroddiad gan ddweud ei fod yn dda gweld bod Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu'r gwasanaeth llyfrgell hwn i safon uchel iawn.<br><br>Llongyfarchwyd AWEN gan y Dirprwy Arweinydd am ennill cyllid amgen. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i unrhyw doriadau sy'n rhaid eu gwneud i wasanaethau llyfrgell gan Awdurdodau Lleol beidio â bod yn anghymesur â thoriadau eraill, sy'n bwynt pwysig i'w ddeall. Roedd yn bwysig hefyd ein bod yn gwrando ar yr ymgynghorid cyhoeddus ac yn ystyried safbwyntiau'r trigolion a'r hyn maen nhw ei eisiau a ddim ei eisiau, er mwyn sicrhau bod ein dewisiadau'n gynhwysol. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ac Atodiadau 1 a 2 a'u nodi, ac ystyried y gwaith positif mae'r gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi eu darparu hyd yn hyn mewn perthynas â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 308. Gweithdrefn Benodi a Diswyddo Llywodraethwyr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad oedd yn<br><br>• ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer gweithdrefn benodi a diswyddo llywodraethwyr awdurdod lleol (Atodiad A); ac<br><br>• yn ceisio awdurdodaeth i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau<br><br>Cymeradwywyd y weithdrefn benodi a diswyddo llywodraethwyr awdurdod lleol gan y Cabinet yn 2008. Wrth i'r weithdrefn bresennol ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cabinet gymeradwyo penodi llywodraethwyr awdurdod lleol (yn seiliedig ar argymhellion gan swyddogion), nid yw'r weithdrefn newydd arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cabinet. Y rheswm am hyn yw bod penodiadau o'r fath yn weithredol, ac felly, mae'r weithdrefn newydd yn caniatáu i benodiadau gael eu gwneud ar sail lefelau o wybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol gyda thystiolaeth.<br><br>Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai'r cynnig yw bod y swyddogaeth newydd ganlynol yn cael ei dirprwyo i Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd ar Gynllun B2 o'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Croesawodd Aelod y Cabinet dros Addysg yr adroddiad gan nodi y bydd y newid yn gwella effeithiolrwydd y broses o benodi Llywodraethwyr i Awdurdod Lleol. Gall penodi gymryd ychydig o wythnosau ar hyn o bryd wrth i'r adroddiad gael ei ddrafftio, mae'n cael ei gymeradwyo gan Aelod o'r Cabinet ac yna'n dod gerbron y Cabinet, felly croesawir y newid a bydd yn helpu i lenwi'r swyddi gwag yn gynt.<br><br>PENDERFYNWYD: Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | • cymeradwywyd y weithdrefn ar gyfer penodi a diswyddo llywodraethwyr i awdurdod lleol fel y crynhowyd ym mharagraffau 3.1-3.5 a'i nodi yn Atodiad A yr adroddiad<br>• cymeradwywyd y diwygiad i'r Cynlluniau Dirprwyo Swyddogaethau fel y nodir ym mharagraff 3.6.<br>• cytunwyd y dylai manylion yr ymgeiswyr fod yn ddienw. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 309. Penodi Llywodraethwyr i Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penodi llywodraethwyr awdurdod lleol i gyrff llywodraethu ysgol a restrir ym mharagraff 3.1.<br><br>Ychwanegodd bod yr holl ymgeiswyr wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer eu penodi fel llywodraethwr awdurdod lleol, ac nid oedd cystadleuaeth ar gyfer y swyddi gwag hyn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau a nodir ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 310. Polisi Derbyn Ysgolion 2025-2026

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Polisi Derbyn i Ysgolion 2025-2026 yn Atodiad A.<br><br>Eglurodd fod Fforwm derbyn Pen-y-bont ar Ogwr wedi cytuno ar ddrafft Polisi Derbyn i Ysgolion 2025-2026, yn unol â'r Cod, ym mis Hydref 2023. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad a grybwyllwyd (nodir manylion yn adran 2 yr adroddiad ar bolisi 2025-2026) gyda'r holl bartïon rhwng 8 Ionawr 2024 a 2 Chwefror 2024. Nodwyd manylion yr ymatebion yn adran 3 yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am wybodaeth ynghylch pam mai'r flwyddyn nesaf mae'r Polisi yn dod i rym ac nid eleni. Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y wybodaeth hon ar gyfer y cofnod.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Derbyn i Ysgolion 2025-2026 yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 311. Polisi Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg yr awdurdod lleol.<br><br>Eglurodd bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 a 2027-28 terfynol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2024, yn cynnwys arbediad o £792k ar gyfer 2025-26 mewn perthynas â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg presennol. Er bod arbedion sylweddol wedi eu gwneud yn dilyn newid y polisi gan y Cabinet ym mis Medi 2015, mae newidiadau i ddemograffeg a galw, yn enwedig ar ôl y pandemig, wedi golygu bod angen twf cyllidebol ychwanegol i gynorthwyo'r gyllideb cludiant i ddysgwyr.<br><br>Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fanylion yr ymgynghoriadau blaenorol sydd wedi eu cynnal dros y blynyddoedd diwethaf a'r newidiadau a wnaed wedi'r rhain. Byddai'r ymgynghoriad arfaethedig hefyd yn ystyried y cyd-destun cyfreithiol fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio a gynhaliwyd asesiad effaith ar bobl o gefndiroedd incwm isel a gwahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd ymateb manwl.<br><br>Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd y pwynt o sicrhau bod rhieni'n cymryd cyfrifoldeb cyfartal i sicrhau eu bod yn gallu cael eu plentyn i'r ysgol ac yn defnyddio cymorth symudedd yn briodol. Mae yna nifer o gymhorthion ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion symudedd etc., fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau eu bod, fel rhieni, yn gwneud eu rhan. Dylai cymhorthion symudedd sydd ar gyfer y plentyn gael eu |

| | |
|---|---|
| | defnyddio gan y plentyn yn unig.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigion canlynol:<br><br>• Atal cludiant etifeddol i'r holl ddysgwyr sy'n elwa o gael llwybr cerdded (diogel) a nodwyd i'r ysgol, yn unol â'r pellter statudol o ddwy filltir ar gyfer disgyblion oed cynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion oed uwchradd.<br><br>• Cael gwared ar y warchodaeth 'brawd a chwaer' etifeddol i ddisgyblion.<br><br>• Cael gwared ar yr holl gludiant i ddisgyblion meithrin (ac eithrio'r rhai sy'n mynychu eu hysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd addas agosaf).<br><br>• Cael gwared ar yr holl gludiant Ôl-16 ac eithrio disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion canlynol:<br><br>Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd;<br>Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath; ac<br>Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru.<br><br>• Cynnig yr opsiwn o 'gyllideb cludiant personol' fyddai'n darparu lwfans milltiroedd o 45c y filltir i rieni/gofalwyr disgyblion sydd ag ADY. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**312. Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad yn hysbysu'r Cabinet am yr Adroddiad Gwybodaeth sy'n nodi'r hyn sydd wedi ei gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf.<br><br>Roedd manylion ynghylch hyn yn adran 3.1 yr adroddiad. Noder, mae'r adroddiad hwn eisoes wedi bod drwy broses graffu a'i roi i'r Cabinet ar gyfer ei nodi. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Cydnabu'r Cabinet gyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**313. Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol gan geisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024 ac i'r Cabinet nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod.<br><br>Eglurodd fod y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y cyfnod uchod wedi eu hatodi i'r adroddiad, fe a ganlyn:<br><br>• Cabinet - Atodiad 1<br>• Cyngor - Atodiad 2<br>• Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu - Atodiad 3<br><br>Tynnodd y Dirprwy Arweinydd sylw at y ffaith bod nifer o'r adroddiadau yn hir iawn a gofynnodd i ystyriaeth briodol gael ei rhoi i sicrhau bod adroddiadau'n fwy cryno er budd yr Aelodau yn ogystal â thrigolion Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>PENDERFYNWYD: Cabinet:<br>• Cymeradwywyd Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024 yn Atodiad 1;<br>• Nodwyd Blaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ar gyfer yr un cyfnod, fel y gwelir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**314. Eitemau Brys**

**CABINET - DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2024**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 17:44.